| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **4ydd o Fawrth 2021** |
| **TEITL** | **Cynllun y Cyngor 2018-23: Adolygiad 2021/22** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo diweddariad o Gynllun y Cyngor** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor** |

## 1. Y Penderfyniad a Geisir

1.1. Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu **Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2021/22** er mwyn ei weithredu yn ystod 2021/22.

## 2. Cyflwyniad

2.1. Mabwysiadwyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 8fed o Fawrth 2018. Yn flynyddol ers hynny rydym wedi bod yn adolygu ei gynnwys er mwyn sicrhau ein bod fel Cyngor yn parhau i flaenoriaethu ein gwaith yn ôl anghenion pobl Gwynedd.

2.2. Rydym bellach angen adolygu'r Cynllun er mwyn datgan beth fydd y Cyngor yn bwriadu ei gyflawni yn ystod 2021/22, sef y bedwaredd flwyddyn i mewn i'r cynllun pum mlynedd.

2.3. Er mwyn adolygu'n iawn, roedd angen i ni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar lesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol.

2.4. Yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror bu i'r Cabinet gymeradwyo **Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2021/22 (y Cynllun),** yn amodol ar addasiadau i eiriad Blaenoriaeth 4 a Blaenoriaeth 7, ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu yng Nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 4 Mawrth 2021.

## 3. Cefndir

3.1. Fel y fersiwn gyfredol mae **Cynllun y Cyngor 2018-23: Adolygiad 2021/22** wedi ei rannu'n 2 brif ran, sef y **Blaenoriaethau Gwella** a'r **Cynlluniau Adran** unigol. Ceir copi o'r Cynllun diwygiedig yn **Atodiad 1**.

3.2. Mae'r **Blaenoriaethau Gwella** (a gyhoeddir hefyd fel dogfen ar wahân wedi ei dylunio - **Atodiad 2**) yn nodi ein Hamcanion Llesiant a'n Prosiectau Blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod dan sylw. Ceir amlinelliad o'r holl feysydd yr ydym am roi sylw penodol iddynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau ein trigolion. O dan bob Blaenoriaeth Gwella ceir crynodeb o'r hyn y bwriedir ei gyflawni.

3.3. Ceir disgrifiad o waith dydd i ddydd yr Adrannau o fewn y **Cynlluniau Adran**. Mae'r rhain hefyd yn rhoi sylw i'r hyn yr ydym yn ei wneud mewn ymateb i'r materion a amlygwyd gan Gynghorwyr fel Blaenoriaethau Lleol yn ôl yn hydref 2017.

3.4. Dros y misoedd diwethaf mae llawer o'n hymdrechion fel Cyngor wedi canolbwyntio ar ymateb i argyfwng Covid-19 ond rydym bellach yn cynllunio ar gyfer sefydlogi ac ail adeiladu i'r dyfodol.

3.5. Oherwydd hyn, a'r ffaith ein bod dros hanner ffordd trwy'r Cynllun, roedd yn amserol i ni ymgynghori yn ehangach gyda gweddill yr Aelodau Etholedig. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu ar ddechrau mis Chwefror er mwyn sicrhau fod y blaenoriaethau'n parhau i gyfarch anghenion pobl Gwynedd a cheir crynodeb o'r prif faterion a godwyd o dan pwynt 5 yn yr adroddiad hwn.

## 4. <u>Newidiadau ers Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2020/21</u>

4.1. Mae llawer o waith wedi'i wneud er mwyn adnabod meysydd y dylid eu blaenoriaethu o ystyried yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd wrth sefydlogi ac ailadeiladu yn dilyn argyfwng Covid-19. O ganlyniad, mae sgôp nifer o brosiectau wedi ei ehangu i gynnwys y materion a oedd wedi eu hadnabod.

4.2. Fe grynhoir y prif newidiadau isod. Mae'r wybodaeth yn cynnwys eglurhad o ba brosiectau sy'n newydd i'r cynllun a pha brosiectau sy'n barhad o'r rhai yn y cynllun presennol neu sydd wedi newid rywfaint (e.e. yn ehangu ar brosiect blaenorol neu wedi newid ffocws).

4.3. Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu o'r newydd. Dylid nodi fod nifer o'r meysydd, megis Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes, wedi bod yn derbyn sylw fel rhan o waith y cyngor ers rhai blynyddoedd. Fodd bynnag, mae heriau penodol wedi codi yn sgil argyfwng Covid-19 sydd wedi amlygu'r problemau fwyfwy sy'n golygu eu bod wedi eu huchafu i'w cynnwys ymysg prif flaenoriaethau'r cynllun.

- Adfywio: llunio cynllun adfywio ar gyfer ein hardaloedd
- Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc
- Strategaeth Dysgu Digidol
- Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes
- Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig
- Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol
- Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd
- Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth

- Sicrhau fod teuluoedd a plant ag awtistiaeth yn cael mynediad i’r gefnogaeth sydd angen arnynt i ffynnu
- Capasiti Gwarchod y Cyhoedd
- Sicrhau fod rheolwyr yn arddel eu rôl Iechyd a Diogelwch yn effeithiol
- Cyflawni Arbedion
- Cymunedau Glân a Thaclus
- Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu

4.4. Yn ogystal, mae sgôp neu gynnwys y prosiectau canlynol wedi newid:

- **Elwa o Dwristiaeth** bellach wedi ei ehangu a’i ail-enwi yn **Twristiaeth – llunio Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy**
- Sgôp prosiect **Busnesau’n cael Cymorth i Ffynnu** wedi’i ehangu yn sgil yr angen am gefnogaeth ychwanegol i fusnesau’n dilyn heriau argyfwng Covid-19
- **Darpariaeth Ôl-16, Dalgylch Bangor, Dalgylch Treferthyr (Cricieth), Cydweithio Meirionnydd** wedi ei rannu yn bedwar prosiect unigol sef:
  - **Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon**
  - **Dalgylch Bangor**
  - **Dalgylch Cricieth;** a
  - **Cydweithio Meirionnydd**
- Sgôp prosiect **Cefnogi Llesiant Pobl** wedi’i ehangu yn sgil anghenion gwahanol yn dod i’r amlwg ymysg ein cymunedau’n ystod argyfwng Covid-19
- Sgôp prosiect **Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith** wedi’i ehangu yn sgil cynnydd mewn diweithdra yn dilyn argyfwng Covid-19
- **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24** wedi ei newid i fanylu ar dri prosiect ychwanegol sydd yn dod o dan faner y strategaeth, sef:
  - **Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i’r Cynllun Tai a dechrau gweithredu;**
  - **Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai : Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai; a**
  - **Gosod tai cymdeithasol i bobl leol: Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol**
- Sgôp prosiect **Hybu defnydd o’r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc** wedi’i newid oherwydd yr angen i ystyried sgil effaith y cyfnod clo ar sgiliau a hyder dysgwyr yn y Gymraeg
- Mae’r prosiect **Gwydnwch Cymunedol** wedi ei ymgorffori fel rhan o brosiect **Cefnogi Llesiant Pobl**
- Sgôp prosiect **Cynllun Prentisiaethau** wedi ei ehangu a’i ail-enwi yn **Cynllunio’r Gweithlu**
- Mae’r prosiect **Busnesau Gwynedd i ddefnyddio’r Gymraeg** erbyn hyn yn derbyn sylw fel rhan o waith ddydd i ddydd yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a’r Adran Economi a Chymuned.

4.5. Mae gweddill y prosiectau Blaenoriaeth Gwella yn parhau o 2020/21 i 2021/22.

## 5. Sesiynau ymgysylltu gyda'r Aelodau Etholedig

5.1. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu ar y blaenoriaethau gydag Aelodau Etholedig ar ddechrau mis Chwefror a fynychwyd gan 28 o aelodau. Yn gyffredinol roedd cytundeb i'r blaenoriaethau drafft ynghyd â chroeso i'r cyfle i fwydo i mewn i'r broses cyn cyflwyno'r cynllun yn ffurfiol i'r Cabinet a chyfarfod y Cyngor Llawn.

5.2. Ceir crynodeb o'r prif 'negeseuon' ddaeth allan o'r sesiynau ymgysylltu isod:

- **'Pobl yn helpu pobl'** – angen cofio'r agweddau positif o sefyllfa Covid-19 a'r modd y gwnaeth cymunedau a phobl Gwynedd helpu ei gilydd pan oedd gwir angen. Angen cadw'r momentwm i'r dyfodol.
- **Edrychiad cymunedau** - mae trigolion Gwynedd wedi dod yn llawer mwy ymwybodol o'u milltir sgwâr yn ystod y cyfnodau clo ac felly wedi gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol lleol. Ar y llaw arall, roedd siomedigaeth fod problemau megis baw ci a sbwriel wedi parhau dros y cyfnod. Mae hyn yn awgrymu fod pobl leol yn cyfrannu tuag at y broblem ac nad yw'n rhywbeth sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr *(mae prosiectau o fewn y Cynllun sydd yn ymateb i'r problemau yma).*
- **Cynlluniau Adfywio Lleol** - roedd croeso i'r syniad o greu cynlluniau sy'n ymateb i anghenion penodol ardaloedd lleol gan fod blaenoriaethau yn amrywio ar draws y sir.

5.3. Yn ogystal fe dderbyniwyd nifer o sylwadau ar brosiectau penodol a byddwn yn pasio'r sylwadau hyn ymlaen i arweinwyr y prosiectau perthnasol.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)(2015)

6.1. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant yn eu hardal nhw.

6.2. Bu i ni ymgynghori gyda'r Aelodau Etholedig a'r cyhoedd ynghylch y materion sy'n effeithio ar eu llesiant fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynllun gwreiddiol (a gyda Aelodau Etholedig yn ystod Chwefror 2021) gan hefyd ddadansoddi canlyniadau Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

6.3. Gan fod y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r amcanion llesiant ar gyfer 2018/19 yn parhau i fod yn berthnasol awgrymir bod yr amcanion hynny yn parhau ar gyfer 2021/22. Ceir rhestr o'r amcanion llesiant ar dudalen 5 o'r cynllun.

## 7. Deddf Cydraddoldeb 2010

7.1. Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn **Atodiad 3.**

7.2. Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd cyfrifoldeb ar Arweinyddion Prosiect i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

## 8. Unrhyw Ymgynghoriadau A Gynhaliwyd Cyn Argymell Y Penderfyniad

### 8.1 Barn y Swyddogion Statudol:

**i. Y Pennaeth Cyllid**

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol, sy'n gosod allan yr hyn y mae Cyngor Gwynedd am anelu i'w wneud dros y dair blynedd nesaf. Mae'r Gronfa Trawsffurfio yn parhau mewn lle i ariannu blaenoriaethau'r Cynllun, ond mae cyfran o'r gronfa yma eisoes wedi cael ei ymrwymo. Mae tebygolrwydd y bydd gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt, tra mae priodoldeb ariannol yn golygu y bydd rhaid sicrhau bod ffynhonnell ariannu wedi cael ei adnabod ar gyfer unrhyw ymrwymiad i wario. Disgwyliaf bydd y Cabinet yn parhau i ystyried pob achos busnes yn unigol cyn cytuno i ariannu cynlluniau a awgrymir, ac ar yr achlysuron hyn byddaf yn diweddaru'r Cabinet ar ddigonolrwydd y Gronfa.

**ii. Y Swyddog Monitro:**

O fewn Cynllun y Cyngor mae agweddau statudol sydd yn cael eu cyfarch, yn benodol felly ynglŷn ag Amcanion Gwella ( Mesur Llywodraeth Leol ( Cymru) 2009) ag Amcanion Llesiant a osodir yn unol â'r gofyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol( Cymru ) 2015. Drwy adolygu'r Cynllun mae'r Cyngor yn cyfarch gofynion yn blynyddol ynglyn a'r rhain. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad o safbwynt priodoldeb.

### 8.2 Barn yr Aelod Lleol

Ddim yn fater lleol.

### 8.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad

Asesiadau Effaith Cydraddoldeb i'w gweld yn Atodiad 3.

Crynodeb o'r sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd hefo Aelodau Etholedig wedi ei gynnwys o dan bwynt 5 yn yr adroddiad.

## 9. Atodiadau

Atodiad 1 – Cynllun y Cyngor 2018-23: Adolygiad 2021/22

Atodiad 2 – Blaenoriaethau Gwella

Atodiad 3 - Asesiadau Cydraddoldeb